

# Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cadarnhau Data 2025

## Canllaw Sut i Lenwi

# Cynnwys

Negeseuon Allweddol ..... 3
Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein ..... 3
Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – Cadarnhau Data 2025 – Canllaw Sut i Lenwi ..... 3
Ar Ôl Cyflwyno Eich Ffurflen Yn Llwyddiannus ..... 3
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ..... 4
Hafan ..... 4
Cadarnhau Data – Dechrau ..... 6
Cadarnhau Data – Parhau â Chais ..... 7
Cadarnhau Data – Ailddechrau ..... 8
Ffurflen Cadarnhau Data – Cyflwyniad ..... 9
Trosolwg ..... 10
Hysbysiad Preifatrwydd ..... 10
Parseli ..... 11
Rhestr o'r parseli ..... 11
Gweld map ..... 13
Crynodeb ..... 14
Dewis parseli eraill o'r dudalen Crynodeb ..... 16
Tab Cynefin ..... 18
Ychwanegu cynefin newydd ..... 19
Ychwanegu ardaloedd penodol o gynefin ..... 20
Llenwi bylchau rhwng cynefin presennol ..... 23
Llenwi'r parsel cyfan ..... 24
Dyddiad sefydlu ..... 25
Tab Canopi coed ..... 26
Ychwanegu canopi coed newydd ..... 27
Ychwanegu ardaloedd penodol o ganopi coed unigol neu grŵp ..... 28
Llenwi bylchau rhwng canopi coed presennol ..... 33
Llenwi parsel yn llawn ..... 34
Dyddiad sefydlu ..... 34
Golygu cynefin a chanopi coed ..... 35
Ni allwch olygu ardaloedd o goetir presennol (HWS 2024). Cyfeiriwch at yr adran Coetir presennol (HWS 2024). ..... 35

Newid categori cynefin a mathau o goed ..... 35
Newid arwynebedd neu siâp cynefin neu ganopi coed ..... 38
Dileu cynefin neu ganopi coed ..... 43
Rheolau mapio ..... 47
Cynefin presennol sy'n gorgyffwrdd ..... 47
Cynefin dros ganopi coed yn fwy na (neu'n hafal i) 0.1ha ..... 48
Gorgyffwrdd â chanopi coeden sy'n bodoli eisoes ..... 49
Canopi coed yn fwy na (neu'n hafal i) 0.1ha dros gynefin ..... 51
Nodweddion Parhaol a Wnaed gan Ddyn ..... 52
Nodweddion dŵr – afonydd a nentydd ..... 53
Cyfyngiadau ..... 54
Coetiroedd presennol yng Nghynllun Cynefin Cymru (HWS) 2024 ..... 55
Pyllau bywyd gwyllt parhaol ..... 57
Cyfanswm Maint y Darnau Cynefin ..... 59
Cyfanswm Maint y Darnau Canopi ..... 60
Cynllun Ffermo Cynaliadwy 2026 ..... 61
Tudalen Gyflwyno – Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ..... 62
Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau ..... 63
Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno ..... 63
Cysylltiadau ..... 64
RPW Ar-lein ..... 64
Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ..... 64
Mynediad i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig ..... 64
Gwefan Llywodraeth Cymru ..... 64

© Hawlfraint y Goron 2023 WG50333 ISBN Digidol: 978-1-83625-364-8

## Negeseuon Allweddol

### Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

Er mwyn cofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, mae angen i chi gwblhau'r ffurflen gofrestru ar-lein. Gweler y canllawiau ar sut i gofrestru am ragor o fanylion.

Gellir gwneud y rhan fwyaf o newidiadau i fanylion busnes ar-lein. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhagor o fanylion ar Lywodraeth Cymru mewn rhai amgylchiadau.

### Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – Cadarnhau Data 2025 – Canllaw Sut i Lenwi

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi canllaw cam wrth gam i chi ar sut i lenwi eich ffurflen Cadarnhau Data ac maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau gyda'r canllaw neu os na allwch gael mynediad i RPW Ar-lein, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004.

### Ar Ôl Cyflwyno Eich Ffurflen Yn Llwyddiannus

Caiff crynodeb o'ch ffurflen Cadarnhau Data wedi'i chwblhau ei ychwanegu at y dudalen ‘Negeseuon’ ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl “Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru”.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

### Hafan

Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif, fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.



I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **Cymraeg/English** ar y bar yng nghornel dde uchaf y sgrin. Defnyddiwch y botwm i ddewis yr iaith y gwelwch eich cyfrif RPW Ar-lein a'ch ffurflen Cadarnhau Data ynddi.





Er mwyn agor y ffurflen Cadarnhau Data SFS, ewch i ‘Dechrau Ffurflen’ yn eich hafan a dewiswch y ffurflen o'r dudalen hon. Efallai y bydd angen i chi sgrolio i lawr i weld y ffurflen.



## Cadarnhau Data – Dechrau

Darllenwch y canllaw Cadarnhau Data yn Grantiau a thaliadau gwledig, a Dewiswch 'Cadarnhau Data SFS 2025'

Er mwyn dechrau llenwi eich ffurflen cliciwch ar y botwm **Dechrau**.





### Dechrau Cais dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cadarnhau Data SFS 2025.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Hydref 2025. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn 1 Hydref 2025.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cadarnhau Data SFS 2025** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | Welsh Government Offices<br>County Hall<br>Spa Road East<br>Llandrindod Wells<br>Powys |
| **Côd Post** | LD1 5LH |
| **Rhif Ffôn** | 00000999998 |
| **Nifer y Partneriaid** | 6 |

Dewisiadau Ar-lein


| | |
|---|---|
| **E-bost ynte neges destun (SMS)** | Y ddau |
| **Cyfeiriad e-bost** | A0999998@Test.gov.wales |
| **Rhif ffôn symudol** | 00000999998 |

Dechrau Canslo

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

## Cadarnhau Data – Parhau â Chais

Os byddwch yn dechrau llenwi'r ffurflen Cadarnhau Data ac yn gadael cyn ei chyflwyno, caiff y data yn y ffurflen eu cadw'n awtomatig a gallwch ddychwelyd at eich ffurflen yn nes ymlaen. Er mwyn gweld y manylion a gadwyd, cliciwch ar Parhau



Taliadau Gwledig Cymru RPW Ar-Lein Online Rural Payments Wales

Emma Butcher - Yn edrych ar CRN: A0999998 Friendly Farmer customer (Newid Cwsmer) English | Allgofnodi

Hafan | Manylion yn CRN | Tir | Gohebiaeth 23 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

**Parhau â Chais** parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cadarnhau Data SFS 2025.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Cadarnhau Data SFS 2025.**

Cewch ddewis dileu'ch **Cadarnhau Data SFS 2025** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Cadarnhau Data SFS 2025** a llenwir y **Cadarnhau Data SFS 2025** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Hydref 2025. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn 1 Hydref 2025.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cadarnhau Data SFS 2025** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | Welsh Government Offices<br>County Hall<br>Spa Road East<br>Llandrindod Wells<br>Powys |
| **Côd Post** | LD1 5LH |
| **Rhif Ffôn** | 00000999998 |
| **Nifer y Partneriaid** | 6 |

Dewisiadau Ar-lein

| | |
|---|---|
| **E-bost ynte neges destun (SMS)** | Y ddau |
| **Cyfeiriad e-bost** | A0999998@Test.gov.wales |
| **Rhif ffôn symudol** | 00000999998 |


Parhau i weithio ar **Cadarnhau Data SFS 2025** a gafodd ei ddiweddaru ar 09/07/2025 am 10:33 gan Emma Butcher

Parhau | Yn ôl

## Cadarnhau Data – Ailddechrau

Os byddwch am ailddechrau llenwi'r ffurflen a dileu unrhyw newidiadau y gallwch fod wedi'u gwneud ar y ffurflen, gallwch gliciwch ar y botwm **Ailddechrau.** Bydd hyn yn dileu'r holl ddiweddariadau rydych eisoes wedi'u gwneud i'r ffurflen ac yn mynd â chi nôl i'r data gwreiddiol sydd gennym ar gyfer eich fferm.

Rydym yn argymell eich bod yn ailddechrau llenwi'r ffurflen os bydd cryn dipyn o amser wedi mynd heibio rhwng yr adeg y gwnaethoch agor y ffurflen i ddechrau a'r adeg rydych yn cwblhau unrhyw newidiadau pellach er mwyn sicrhau bod y wybodaeth fwyaf diweddar am y parsel wedi'i chofnodi yn y ffurflen.


**Parhau â Chais** parhau â chais neu hawliad


Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cadarnhau Data SFS 2024.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Cadarnhau Data SFS 2024.**

Cewch ddewis dileu'ch **Cadarnhau Data SFS 2024** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers i chi ddechrau'ch **Cadarnhau Data SFS 2024** a llenwir y **Cadarnhau Data SFS 2024** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

## Ffurflen Cadarnhau Data – Cyflwyniad

Dyma'r dudalen Cyflwyniad sy'n rhoi gwybodaeth am y ffurflen Cadarnhau Data.




Botymau safonol ar y ffurflen Cadarnhau Data:

**Help** – bydd y botwm hwn yn eich cysylltu â'r canllaw ar gyfer y ffurflen Cadarnhau Data

**Cymraeg / English** – defnyddiwch y botymau i newid rhwng ieithoedd

**Gadael** – defnyddiwch y botwm hwn i adael y ffurflen a dychwelyd ati yn ddiweddarach ar unrhyw adeg (o fewn y terfynau amser).


**Yn ôl a Nesaf** – mae'r botymau hyn eich galluogi i symud rhwng yr adrannau.

**Cadw** – defnyddiwch y botwm hwn i gadw unrhyw newidiadau rydych eisoes wedi'u gwneud (bydd clicio ar **Nesaf** yn cadw'r adran rydych newydd ei chwblhau yn awtomatig).

**Printio** – yng nghornel chwith isaf y sgrin, defnyddiwch y botwm hwn os ydych am brintio copi o'r crynodeb o'ch ffurflen Cadarnhau Data ar unrhyw adeg.


## Trosolwg

Bydd y dudalen hon yn rhoi trosolwg i chi o'r wybodaeth a welwch ar y ffurflen Cadarnhau Data.




## Hysbysiad Preifatrwydd

Rhaid i chi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.




## Parseli


### Rhestr o'r parseli

Bydd rhestr o'r parseli o gaeau sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n cael eu rheoli gennych ar gael yn y tab Parseli.

Os nad yw parsel wedi'i restru, gellir ei ychwanegu gan ddefnyddio'r botwm 'Ychwanegu parsel'. Dim ond parseli sydd eisoes wedi'u cofrestru gyda RPW y gallwch ychwanegu nad ydynt wedi'u cofrestru fel tir comin. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, dylech gyflwyno Rheoli Fy Nhir (MML) i ddiweddaru'r gofrestr tir.




Dangosir cyfanswm y parseli ar frig y dudalen.  Nifer diofyn y canlyniadau fydd 5 fesul tudalen ond gellir newid hyn drwy glicio ar nifer y canlyniadau yr hoffech eu gweld ar y dudalen. Gallwch sgrolio drwy'r tudalennau gan ddefnyddio naill ai'r botymau **Yn ôl** neu **Nesaf** neu drwy glicio ar rif ar waelod y dudalen.




Byddwch yn gweld rhif y ddalen a'r cae, enw'r cae, maint y cae a'r ddeiliadaeth.

Byddwch hefyd yn gweld arwynebeddau'r cynefin a'r canopi coed wedi'i gynnwys ar gyfer pob parsel.

Bydd statws parsel, cynefin a chanopi coed 2024 yn cael ei neilltuo i bob parsel ar y ffurflen.  Y statws yw:

**Heb ei adolygu** – ni adolygwyd y parsel, y cynefin a'r canopi coed o dan Gadarnhad Data 2024

**Adolygwyd dim newidiadau** – Adolygwyd y parsel o dan Gadarnhad Data 2024 ac mae'r cynefin a'r canopi coed wedi'u cadarnhau gan RPW heb ddiweddariadau pellach.

**Newidiwyd ers yr adolygiad** – adolygwyd y parsel o dan Gadarnhad Data 2024 ond ni dderbyniwyd yr holl ddiweddariadau a wnaed i'r cynefin a/neu ganopi coed gan RPW neu mae diweddariadau pellach wedi'u gwneud. Gallai hyn fod oherwydd:

1. Gofynnwyd i Gynefin gael ei ddileu o haen cyfyngiadau ac ni dderbyniwyd y newid

2. Mae'r cynefin wedi'i dynnu lle roedd o dan ganopi coed gydag arwynebedd dros 0.1ha

3. Mae ardaloedd o nodweddion dŵr eraill wedi'u tynnu o'r cynefin

4. Mae pyllau bywyd gwyllt parhaol wedi'u hychwanegu

Bydd statws 2025 hefyd wedi'i bennu i bob parsel sydd i'w weld ar ochr dde manylion y parsel. Bydd i bob parsel statws 2025 'Heb ei adolygu' pan fyddwch yn dechrau llenwi'r ffurflen. Y gwahanol fathau o statws yw:

**Heb ei adolygu** – Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r parsel. Bydd wedi'i uwcholeuo mewn llwyd.

**Gwaith dilynol** – Mae'r parsel wedi'i farcio ar gyfer gwaith dilynol neu mae newid wedi'i wneud i'r parsel, ond nid yw wedi'i farcio fel 'Wedi'i adolygu' eto. Bydd wedi'i uwcholeuo mewn melyn.

**Wedi'i adolygu** – Dylid cadarnhau bod y parsel 'Wedi'i adolygu' unwaith y bydd y cynefin a'r canopi coed ar y parsel wedi'u gwirio ac unrhyw newidiadau wedi'u gwneud. Bydd wedi'i uwcholeuo mewn gwyrdd.

**Wedi'i ddileu** – Mae'r parsel wedi'i ddileu am nad yw'n cael ei reoli gennych mwyach. Bydd wedi'i uwcholeuo mewn coch tywyll.


Gallwch hidlo'r parseli drwy wneud y canlynol:

1. Rhoi manylion yn y blwch chwilio **Geiriau Allweddol**. Gallai hyn fod yn enw cae neu'n rhif cae.
2. Dewis y **Statws** os mai dim ond edrych ar barseli â statws penodol rydych am ei wneud
3. Dewis **statws parsel 2024**
4. Dewis **Deiliadaeth** y parseli.
5. Gellir defnyddio cyfuniad o'r hidlyddion hyn, e.e. pob parsel sy'n **'Eiddo i chi'** ac sydd â'r statws '**Gwaith dilynol**'.

Pan gaiff hidlydd ei weithredu, bydd nifer y parseli sy'n cyfateb i'r hidlydd hwnnw i'w weld ar frig y dudalen.


## Gweld map


Os byddai'n well gennych lywio eich parseli gan ddefnyddio map, gallwch glicio ar y botwm **Gweld map**. Bydd y map yn dangos eich daliad cyfan i chi pan fyddwch yn ei weld gyntaf a gallwch symud o amgylch y map a chwyddo'r sgrin er mwyn gweld eich parseli o gaeau.




Bydd cyfeirnod y ddalen, rhif y cae a statws pob parsel i'w gweld ar y map. Bydd y rhain wedi'u huwcholeuo mewn lliwiau gwahanol yn seiliedig ar statws adolygu'r parsel.  Mae yna hefyd sawl haen cyfeirio ar fap y gellir eu troi ymlaen ac i ffwrdd trwy ddewis Gweld Opsiynau. Bydd allwedd yn dangos i chi pa haenau sydd wedi'u troi ymlaen.






Ar ôl i chi glicio ar barsel, fe welwch y Crynodeb o'r parsel.

**Crynodeb**

Bydd y crynodeb yn dangos cyfeirnod y ddalen, rhif y cae, enw'r cae, maint y cae a'r ddeiliadaeth i chi.

Bydd statws parsel 2025 a 2024 yn weladwy. Bydd yna hefyd statws cynefin a chanopi coed 2024.

Byddwch hefyd yn gweld cyfanswm arwynebedd y cynefin a chyfanswm arwynebedd y canopi coed ar gyfer y parsel.

Dangosir pob arwynebedd i ddau le degol. Os bydd arwynebedd unrhyw ganopi coed yn fwy na 0 ha ond yn llai na 0.01 ha, dangosir yr ardal fel ‘Llai na 0.01 ha’.

Dangosir blwch gwybodaeth os oes canopïau coed anhysbys sydd angen eu categoreiddio.

> Dydyn ni ddim yn gwybod pa fath o ganopi coed sydd yn y parsel hwn. Rhaid nodi'r math yn y tab canopi coed cyn cael marcio bod y parsel wedi'i adolygu.

Bydd map o'r parsel i'w weld gyda'r parsel a ddewiswyd yn cael ei uwcholeuo gan ffin las. Ceir sawl haen o gyfeirnodau map y gellir eu troi ymlaen neu i ffwrdd drwy ddewis Gweld Opsiynau. Bydd allwedd yn dangos i chi pa haenau sydd wedi'u troi ymlaen.




Os byddwch chi'n troi'r haenau Safleoedd Dynodedig neu'r Amgylchedd Hanesyddol ymlaen, byddwch yn gallu clicio arnynt i weld gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y nodwedd os yw ar gael, er enghraifft cyfeirnod y safle. Bydd y rhain i'w gweld ar y dudalen Crynodeb yn unig.




Mae botymau gweithredu ar gael er mwyn diweddaru statws y parsel. Ar ôl i statws gael ei bennu drwy glicio ar un o'r botymau, gellir ei newid os bydd angen. Mae'r botymau fel a ganlyn:

**Marcio wedi'i adolygu** – Os byddwch wedi adolygu'r cynefin a'r canopi coed ar y parsel ac wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen, gallwch glicio ar y botwm hwn i farcio bod y parsel wedi'i adolygu. Ni allwch farcio bod y parsel wedi'i adolygu os oes unrhyw fathau anhysbys o ganopi coed. Gweler yr adran ar sut i ddiweddaru mathau o goed. Gallwch glicio ar y botwm **Marcio heb ei adolygu** os byddwch yn newid eich meddwl.

**Marcio gwaith dilynol** – Dylech ddefnyddio'r botwm hwn os hoffech ddychwelyd at y cae hwn yn ddiweddarach. Gallwch ychwanegu sylw os oes angen. Gallwch glicio ar y botwm **Dileu gwaith dilynol** os na fydd ei angen arnoch mwyach.

**Dileu parsel** – Os byddwch yn dewis dileu parsel, bydd angen i chi gadarnhau pam rydych wedi'i ddileu a chyflwyno cais Rheoli Fy Nhir, lle y bo'n gymwys. Gellir adfer y parsel drwy ddefnyddio'r botwm **Adfer parsel**.




Os bydd newidiadau wedi'u gwneud i'r cynefin a/neu'r canopi coed mewn parsel, bydd botwm **Dilëwch bob newid i'r parsel hwn** yn ymddangos. Os byddwch yn clicio ar y botwm hwn, caiff pob newid a wnaed yn y parsel hwnnw ei ddileu'n barhaol a bydd y parsel yn dychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol. Ni all y system adfer y newidiadau hyn ar ôl i chi glicio ar y botwm.





**Dewis parseli eraill o'r dudalen Crynodeb**

Mae gennych y gallu i ddewis parsel arall o'r olygfa map Crynodeb trwy glicio arno.

Fel arall, gallwch sgrolio drwy'r parseli gan ddefnyddio'r botymau **Yn ôl** a **Nesaf** yng nghornel chwith uchaf y dudalen. Os gwnaethoch ddefnyddio Rhestr o'r parseli i ddewis y parsel ac na wnaethoch weithredu unrhyw hidlyddion, gallwch sgrolio drwy bob un o'r parseli. Fodd bynnag, os gwnaethoch weithredu hidlydd pan wnaethoch glicio i mewn i'r parseli, dim ond sgrolio drwy'r rhestr wedi'i hidlo o barseli y gallwch ei wneud.





Gallwch glicio ar y botwm **Yn ôl i'r rhestr** er mwyn dychwelyd i'r rhestr o'r parseli. Caiff unrhyw hidlyddion a osodwyd yn flaenorol eu gweithredu o hyd ond gellir eu newid os oes angen. Os gwnaethoch ddewis y parsel gan ddefnyddio gweld map, gallwch ddychwelyd i'r map drwy glicio ar **Yn ôl i'r trosolwg**.




Noder: wrth ddewis parsel arall neu sgrolio drwy'r parseli gan ddefnyddio'r botymau **Yn ôl** a **Nesaf** neu drwy glicio ar **Yn ôl i'r rhestr** neu **Yn ôl i'r trosolwg**, gofynnir i chi a ydych wedi gorffen adolygu'r parsel os nad ydych wedi'i farcio fel **Wedi'i adolygu** neu **Wedi'i ddileu**.

Bydd blwch yn ymddangos i chi gadarnhau eich bod wedi gorffen adolygu'r parsel ac am ei farcio fel wedi'i adolygu:




1. Os byddwch yn ticio'r blwch, bydd y statws yn newid i **Wedi'i adolygu.**
2. Os na fyddwch yn ticio'r blwch ac nad ydych wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynefin na'r Canopi Coed, bydd y statws yn aros fel **Heb ei adolygu**.
3. Os na fyddwch yn ticio'r blwch ond eich bod wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynefin neu'r Canopi Coed, caiff y statws ei osod yn awtomatig i **Gwaith dilynol**.

## Tab Cynefin

Bydd y tab Cynefin yn dangos y cynefin ‘wedi'i gynnwys’ ar y parsel i chi.

Dangosir nifer y cynefinoedd wedi'u cynnwys ar y parsel yn y bar ar ochr chwith y sgrin. Er mwyn gweld manylion, gallwch glicio ar y botwm **Dangoswch y cyfan** neu'r eicon **v**.

Ar ôl i chi glicio ar y botwm, fe welwch y cyfeirnod unigryw penodedig, e.e. H0001, ar gyfer pob tir cynefin, y categori a maint y cynefin. Er mwyn cuddio'r manylion, gallwch glicio ar y botwm **Cuddiwch y cyfan** neu ar yr eicon **^**.

Dangosir map o'r cynefin hefyd. Dangosir y cynefin wedi'i gynnwys mewn pinc.

Gellir troi haenau o fapiau ‘ymlaen’ ac ‘i ffwrdd’ gan ddefnyddio'r botwm **Gweld Opsiynau** ac mae botymau chwyddo ar gael. Bydd haenau'r cynefinoedd ‘ymlaen’ yn ddiofyn, a bydd unrhyw haenau a oedd wedi'u troi ‘ymlaen’ yn y Crynodeb neu'r tab Canopi coed yn aros ‘ymlaen’ hefyd. Bydd allwedd yn dangos pa haenau sydd wedi'u troi ‘ymlaen’ ar hyn o bryd.

Os byddwch yn dewis tir cynefin ar y bar ar ochr chwith y sgrin neu'n hofran drosto, caiff ffin y cynefin perthnasol ei huwcholeuo mewn gwyn a bydd y cyfeirnod ar gyfer y cynefin i’w weld ar y map.

Os byddwch yn clicio ar dir cynefin ar y map, caiff y ffin ei huwcholeuo mewn gwyn, bydd modd gweld y cyfeirnod ar gyfer y cynefin a bydd manylion y cynefin ar yr ochr chwith yn ehangu er mwyn dangos botymau ychwanegol.




**Ychwanegu cynefin newydd**

Cliciwch ar y botwm **Ychwanegu tir cynefin** er mwyn ychwanegu tir cynefin newydd.




Gofynnir i chi beth rydych chi am ei wneud:

1. Ychwanegu ardaloedd penodol o gynefin
2. Llenwi bylchau rhwng cynefin presennol
3. Llenwi y parsel cyfan





Mae rhai rheolau wrth ychwanegu ardaloedd cynefin, cyfeiriwch at yr adran Rheolau mapio am ragor o wybodaeth.

## Ychwanegu ardaloedd penodol o gynefin

Bydd hyn yn caniatáu i chi ychwanegu ardaloedd o gynefin o fewn y parsel.

Rhaid i chi ddewis o'r rhestr o ddosbarthiadau cynefinoedd yn gyntaf.




Ar ôl dewis categori, gallwch dynnu polygon ar y map er mwyn dangos lleoliad y cynefin. Os yw'r lluniad o fewn 5m i ffin y parsel neu nodwedd barhaol wedi'i wneud gan ddyn gofynnir i chi a ydych am olrhain y ffin.



Os caiff ei dynnu y tu allan i'r parsel, bydd yn clipio yn awtomatig i ffin y parsel wrth gwblhau’r lluniad.






Dangosir Arwynebedd wedi'i luniadu'r cynefin ar y bar ar ochr chwith y sgrin mewn hectarau.




Gallwch ychwanegu sawl ardal o'r cynefin; neilltuir cyfeirnod ac ardal H i bob ardal o gynefin.



## Llenwi bylchau rhwng cynefin presennol

Bydd hyn yn eich galluogi i ychwanegu cynefin at bob ardal o'r parsel nad oes ganddynt gynefin ar hyn o bryd, canopi coed dros 0.1 hectar neu nodweddion parhaol a wnaed gan ddyn.


Bydd cyfeirnod ac ardal H i bob ardal o gynefin. Os yw unrhyw fylchau yn llai na 0.01ha ni fyddant yn cael eu llenwi â chynefin.








Os nad oes bylchau i'w llenwi byddwch yn gweld neges gwall.





## Llenwi'r parsel cyfan

Bydd hyn yn ychwanegu cynefin i'r parsel cyfan ac yn disodli unrhyw gynefin presennol, ond ni fydd yn disodli unrhyw ardaloedd o gynefin mewn haen gyfyngedig, ardaloedd presennol o ganopi coed dros 0.1ha neu nodweddion parhaol a nodweddion dŵr presennol.



**Dyddiad sefydlu**

Rhaid i chi nodi'r dyddiad y sefydlwyd cynefin ar gyfer yr holl gynefinoedd a ychwanegwyd. Os sefydlwyd y cynefin cyn 01/01/2022 ac mae'r flwyddyn yn anhysbys, dylech ddefnyddio 01/01/1901. Ni allwch nodi dyddiad cyn 01/01/1901 nac ar ôl y dyddiad heddiw.



## Tab Canopi coed

Bydd y tab Canopi coed yn dangos y canopi coed unigol a'r grŵp o ganopïau coed i chi ar y parsel yn ôl math.

Dangosir y canopi coed unigol a'r grŵp o ganopïau coed yn y bar ar ochr chwith y sgrin. Er mwyn gweld manylion, gallwch glicio ar y botwm **Dangoswch y cyfan** neu'r eicon **v**.

Ar ôl i chi glicio ar y botwm, fe welwch y cyfeirnod unigryw penodedig, e.e. T0001, ar gyfer pob canopi coed unigol neu'r grŵp o ganopïau coed, y math o ganopi coed a'r maint. Bydd grwpiau o goed yn dangos maint y canopi mewn hectarau. Dangosir maint nominal ar gyfer canopïau coed unigol. Er mwyn cuddio'r manylion, gallwch glicio ar y botwm **Cuddiwch y cyfan** neu'r yr eicon **^**.

Dangosir map o ganopïau coed hefyd. Dangosir grwpiau o ganopïau coed fel llinellau gwyrdd lletraws a dangosir canopïau coed unigol fel cylchoedd gwyrdd sy'n amrywio o ran maint yn ôl maint y canopi.

Gellir troi haenau map ‘ymlaen’ ac ‘i ffwrdd’ gan ddefnyddio'r botwm **Gweld Opsiynau** ac mae botymau chwyddo ar gael. Bydd haenau'r canopïau coed ‘ymlaen’ yn ddiofyn, a bydd unrhyw haenau a oedd wedi'u troi ‘ymlaen’ yn y Crynodeb neu'r tab Cynefin yn aros ‘ymlaen’ hefyd. Bydd allwedd yn dangos pa haenau sydd wedi'u troi ‘ymlaen’ ar hyn o bryd.

Os byddwch yn dewis canopi coed ar y bar ar ochr chwith y sgrin neu'n hofran drosto, caiff ffin y canopi coed perthnasol ei huwcholeuo mewn gwyn a bydd cyfeirnod y canopi coed i’w weld ar y map.

Os byddwch yn clicio ar ganopi coed ar y map, caiff y ffin ei huwcholeuo mewn gwyn a’r cyfeirnod ar gyfer y canopi coed i’w weld ar y map. Bydd manylion y canopi ar ochr chwith y sgrin yn ehangu er mwyn dangos botymau ychwanegol.



## Ychwanegu canopi coed newydd

Cliciwch ar y botwm **Ychwanegu canopi coed** er mwyn ychwanegu canopi coed newydd.





Gofynnir i chi beth rydych am ei wneud:

1. Ychwanegu ardaloedd penodol o ganopi coeden unigol neu grŵp

2. Llenwi bylchau rhwng canopi coed presennol

3. Llenwi y parsel cyfan




Mae rhai rheolau wrth ychwanegu ardaloedd canopi coed, cyfeiriwch at yr adran Rheolau Mapio am ragor o wybodaeth.


## Ychwanegu ardaloedd penodol o ganopi coed unigol neu grŵp

Bydd hyn yn caniatáu ichi ychwanegu ardaloedd o ganopi coed o fewn y parsel.


Dewiswch a yw'n goeden unigol neu'n grŵp o goed i'w hychwanegu.




Dewiswch o'r rhestr o fathau o ganopi coed. Os byddwch yn ychwanegu gwaith plannu newydd, gallwch dicio'r blwch gwaith plannu newydd a nodi y dyddiad a sefydlwyd.



Os byddwch yn ychwanegu coeden unigol, bydd angen i chi ddewis maint canopi.




Yna, gallwch glicio ar y map i roi pwynt ar leoliad y goeden unigol. Os ydych am ychwanegu sawl ardal o ganopi coed sydd yr un math, dylech ddewis grwpiau a'u mapio. Os yw arwynebedd y llun yn llai na 100m2 bydd yn trosi yn awtomatig i goeden unigol.



Nid oes modd gosod coeden unigol lle mae canopi coed presennol.




Os byddwch yn ychwanegu grŵp o goed, gallwch dynnu polygon er mwyn dangos arwynebedd y canopi ar y map.

Dangosir ‘Arwynebedd wedi'i luniadu’ y canopi coed ar y bar ar ochr chwith y sgrin mewn hectarau.

Os yw'r polygon yn cael ei luniadu y tu allan i'r parsel, bydd yn clipio'n awtomatig i ffin y parsel ar ôl cwblhau'r lluniad.






Os bydd yr arwynebedd wedi'i luniadu yn llai na 0.01 ha, caiff y grŵp o ganopïau coed ei droi'n ganopi coed unigol a bydd y siâp yn newid i gylch.



Gallwch ychwanegu ardaloedd niferus o gynefin, bydd pob ardal o gynefin yn derbyn cyfeirnod ac ardal H.




## Llenwi bylchau rhwng canopi coed presennol

Bydd hyn yn caniatáu ichi ychwanegu canopi coed i bob rhan o'r parsel nad oes ganddynt grwpiau presennol o ganopi coed neu gynefin ar hyn o bryd. Bydd y weithred hon yn disodli unrhyw goed unigol gyda grŵp o goed.

Bydd cyfeirnod ac ardal T yn cael ei neilltuo i bob ardal o ganopi coed. Os yw unrhyw fylchau yn llai na 100m2 byddant yn cael eu llenwi gan goed unigol.




Os nad oes bylchau i'w llenwi byddwch yn gweld neges gwall.




## Llenwi parsel yn llawn

Bydd hyn yn ychwanegu canopi coed i'r parsel cyfan ac yn disodli unrhyw ganopi coed presennol ond ni fydd yn disodli unrhyw ardaloedd presennol o gynefin.




## Dyddiad sefydlu


Rhaid i chi nodi'r dyddiad y sefydlwyd canopi coed ar gyfer yr holl ganopi coed a ychwanegwyd. Os sefydlwyd y canopi coed cyn 01/01/2022 a'r flwyddyn yn anhysbys, dylech ddefnyddio 01/01/1901. Ni allwch nodi dyddiad cyn 01/01/1901 nac ar ôl y dyddiad heddiw..



**Golygu cynefin a chanopi coed**

Er mwyn golygu cynefin neu ganopi coed wedi'i gynnwys, cliciwch ar y botwm **Golygu.**





Ni allwch olygu ardaloedd o goetir presennol (HWS 2024). Cyfeiriwch at yr adran Coetir presennol (HWS 2024).

**Newid categori cynefin a mathau o goed**

Gallwch newid categori'r cynefin drwy glicio ar **Newidiwch y categori** neu'r math o ganopi coed drwy glicio ar **Newidiwch y math.**







Ni allwch newid y dosbarthiad ar gyfer pwll bywyd gwyllt parhaol cyhoeddedig. Cyfeiriwch at yr adran Pyllau bywyd gwyllt parhaol.

Ar gyfer canopïau coed, gallwch hefyd ddefnyddio'r botwm **Diweddaru Mwy nag un Coeden** i ddiweddaru'r math ar gyfer nifer o ganopïau coed yn y parsel ar yr un pryd.



I ddiweddaru mathau dewiswch diweddaru’r mathau o ganopi coed.




Gofynnir i chi a ydych am ei ddiweddaru ar gyfer canopi coed unigol neu grŵp o ganopïau coed yn y parsel.



Ar ôl i chi ddewis, gallwch dicio'r blwch wrth ochr y canopïau rydych am eu newid neu eu dewis ar y map. Neu, er mwyn diweddaru pob grŵp o ganopïau coed neu ganopïau coed unigol o fath penodol, gallwch dicio'r blwch wrth ochr y math o goeden unigol neu'r math o goed. Rhaid pennu math i bob grŵp anhysbys o goed cyn y gellir rhoi statws **Wedi'i adolygu** i barsel.



## Newid arwynebedd neu siâp cynefin neu ganopi coed

Gallwch newid arwynebedd neu siâp cynefin neu grŵp o ganopïau coed drwy glicio ar y botwm **Lluniadu'r arwynebedd** neu **Dewis**.






Bydd **Lluniadu'r arwynebedd** yn eich galluogi i ychwanegu arwynebedd at arwynebedd y cynefin neu grŵp o ganopïau coed presennol drwy dynnu polygon ar y map. Gallwch ddefnyddio'r erfyn i ychwanegu nifer o gynefinoedd neu grwpiau o ganopïau coed ar yr un pryd.

Os caiff y polygon ei dynnu y tu allan i'r parsel, bydd yn clipio i ffin y parsel. Caiff yr 'Arwynebedd wedi'i luniadu' ei ddiweddaru i ddangos arwynebedd newydd y cynefin neu'r grŵp o ganopïau coed.









Bydd y botwm **Dewis** yn eich galluogi i ddewis y cynefin neu'r grŵp o ganopïau coed ar y map a'i olygu drwy glicio ar y ffin a'i llusgo er mwyn newid y siâp.




Wrth olygu cynefin neu grŵp o ganopïau coed, ni allwch orgyffwrdd â thir cynefin na grŵp o ganopïau coed presennol sydd o fath gwahanol neu sy'n perthyn i gategori gwahanol. Gofynnir i chi a ydych am ei ddileu a rhoi cynefin neu grŵp o ganopïau coed newydd yn ei le.







1. Os byddwch yn clicio ar **Ydw**, yna bydd arwynebeddau'r cynefin neu'r canopi coed presennol yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os byddwch yn clicio ar **Nac ydw** bydd yr arwynebedd yn clipio i ffin y cynefin neu'r canopi coed presennol.


3. Os byddwch yn clicio ar **Dileu lluniad**, caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

Caiff cynefin neu ganopi coed wedi'i gynnwys presennol ei ddileu os bydd cynefin neu ganopi coed arall yn gorgyffwrdd ag ef yn llwyr o ganlyniad i'r gwaith golygu. Bydd ffin yr arwynebedd presennol y mae'r cynefin neu ganopi coed yn gorgyffwrdd ag ef yn llwyr yn troi'n goch. Ni allwch ei olygu, ei ddileu na'i adfer tra bydd cynefin neu ganopi coed yn gorgyffwrdd ag ef.







Os bydd angen i chi newid arwynebedd canopi coed unigol, bydd angen i chi glicio ar y botwm **Golygu** a **Newidiwch y maint**.




**Dileu cynefin neu ganopi coed**

Er mwyn dileu arwynebedd cyfan cynefin neu ganopi coed, bydd angen i chi ddewis y nodwedd ac yna glicio ar yr eicon '+' icon neu ei glicio ar y map er mwyn gweld y botwm **Dilëwch** ar y bar ar ochr chwith y sgrin.




Ni allwch ddileu cynefinoedd coetir presennol (HWS 2024) nac unrhyw gynefin sy'n gorgyffwrdd â haen cyfyngiadau. Cyfeiriwch at adrannau perthnasol y canllawiau hyn.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r botwm Diweddaru coed lluosog i ddileu nifer o goed unigol a grwpiau o goed.




Gallwch ddewis y canopïau coed rydych chi am eu newid trwy dicio'r blwch yn y bar ar yr ochr chwith neu drwy eu dewis ar y map. Os ydych chi am ddiweddaru pob canopi coed grŵp neu unigol o fath penodol, gallwch dicio'r blwch wrth ymyl y math o goeden unigol neu grŵp i'w dewis i gyd.




Pan fyddwch yn dileu cynefin neu ganopi coed ‘wedi'i gynnwys', cânt eu dangos ar y map wedi'u hamlinellu mewn coch. Bydd y cynefin neu ganopi coed a ddilëwyd yn ymddangos o hyd ar y bar ar ochr chwith y sgrin ond ni chaiff ei gynnwys mewn unrhyw gyfansymiau ar gyfer cynefinoedd neu ganopïau coed.



Gallwch glicio ar y botwm **Adfer** er mwyn cynnwys yr arwynebedd os byddwch yn penderfynu nad ydych am ei ddileu. Ni fyddwch yn gallu ei adfer os yw'r ardal wedi'i gorgyffwrdd yn llwyr gan gynefin neu ganopi coed dros 0.1 ha.




Er mwyn dileu rhan o gynefin neu grŵp o ganopïau coed yn unig, gallwch glicio ar y botwm **Golygu** a defnyddio'r erfyn **Dileu yr arwynebedd** a fydd yn eich galluogi i luniadu'r arwynebedd rydych am ei ddileu. Nid yw'r erfyn hwn ar gael ar gyfer canopïau coed unigol.




Tynnwch bolygon o amgylchedd yr arwynebedd rydych am ei ddileu. Os caiff y polygon ei dynnu y tu allan i'r parsel, bydd yn clipio i'r ffin.

Ni allwch ddileu ardal o gynefin sy'n gorgyffwrdd â phwll bywyd gwyllt parhaol cyhoeddedig neu haen cyfyngiad. Cyfeiriwch at adran berthnasol y canllawiau hyn.

Ar ôl i chi ddileu'r arwynebedd, dangosir yr ‘Arwynebedd wedi'i luniadu’ newydd ar y bar ar ochr chwith y sgrin mewn hectarau.


SO1637 7174
31 o 56
Perllannau Traddodiadol
Newidiwch y categori
H0001 2.08 ha
Parhau
Yn ôl
Diweddaru'r cynefin
Lluniadu'r Arwynebedd
Dileu yr arwynebedd
Dewis
Gweld Opsiynau
419.98m
H0001
Allwedd
Parsel actif
Ffiniau parseli eraill
Cynefin wedi'i gynnwys


SO1637 7174
31 o 56
Llydanddail
Newid y math
T00039 0.16 ha
Parhau
Yn ôl
Diweddaru canopi coed
Lluniadu'r Arwynebedd
Dileu yr arwynebedd
Dewis
Gweld Opsiynau
T00039
280.24m
Allwedd
Parsel actif
Ffiniau parseli eraill
Canopi coed

## Rheolau mapio

### Cynefin presennol sy'n gorgyffwrdd

Wrth ychwanegu neu olygu cynefin newydd, ni all orgyffwrdd ardal bresennol o gynefin sydd â dosbarthiad gwahanol. Gofynnir i chi a ydych am ddisodli'r cynefin presennol.




1. Os ydych yn clicio **Ie** yna bydd ardaloedd y cynefin presennol yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os ydych chi'n clicio **Na**, bydd yr ardal yn clipio i ffin y cynefin presennol.

3. Os ydych chi'n clicio **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a dynnwyd yn cael ei ddileu.

Os yw'r cynefin newydd yn disodli cynefin presennol yn llwyr, bydd y cynefin presennol yn cael ei ddileu. Ni ellir ei adfer tra ei fod wedi'i gorgyffwrdd gan gynefin arall




## Cynefin dros ganopi coed yn fwy na (neu'n hafal i) 0.1ha

Os ydych yn dileu neu'n golygu cynefin sy'n gorgyffwrdd ag ardal o ganopi coed sy'n fwy na (neu'n hafal i) 0.1 hectar o faint, gofynnir i chi a yw'r cynefin yn disodli'r canopi coed.




1. Os ydych chi'n clicio **Ie**, yna bydd yr ardaloedd o ganopi coed yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os ydych chi'n clicio **Na**, bydd yr ardal yn clipio i ffin y canopi coeden presennol.

3. Os ydych chi'n clicio **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a dynnwyd yn cael ei ddileu.

## Gorgyffwrdd â chanopi coeden sy'n bodoli eisoes

Wrth ychwanegu neu olygu grŵp o goed, ni all canopi coeden orgyffwrdd â chanopi coeden sy'n bodoli eisoes o fath gwahanol. Os ydych chi'n gorgyffwrdd canopi coeden grŵp, gofynnir i chi a ydych am ddisodli'r canopi coeden presennol.




1. Os ydych chi'n clicio **Ie**, yna bydd yr ardaloedd o ganopi coed yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os ydych chi'n clicio **Na**, bydd yr ardal yn clipio i ffin y canopi coeden presennol.

3. Os ydych chi'n clicio **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a dynnwyd yn cael ei ddileu.

Os ydych chi'n gorgyffwrdd canopi coeden unigol, bydd y canopi coeden unigol yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan yr ardal a ddyluniwyd. Ni ellir ei adfer tra ei fod wedi'i orgyffwrdd gan ganopi grŵp coed.





Os yw grŵp newydd y canopi coed yn disodli grŵp canopi coed sy'n bodoli eisoes yn llwyr, caiff yr ardal bresennol ei dileu. Ni ellir ei hadfer tra ei bod yn gorgyffwrdd â grŵp canopi coed arall.



## Canopi coed yn fwy na (neu'n hafal i) 0.1ha dros gynefin

Os ydych chi'n dylunio neu'n golygu canopi coed sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1 hectar sy'n gorgyffwrdd ardal o gynefin, gofynnir i chi a yw'r canopi coed yn disodli'r cynefin.




1. Os ydych chi'n clicio **Ie** yna bydd yr ardaloedd cynefin yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.
2. Os ydych chi'n clicio **Na**, bydd yr ardal yn clipio i ffin y cynefin presennol.
3. Os ydych chi'n clicio **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a luniwyd yn cael ei dileu.

### Nodweddion Parhaol a Wnaed gan Ddyn


Os ydych yn llunio neu'n golygu ardal gynefin sy'n gorgyffwrdd â nodwedd barhaol a wnaed gan ddyn, bydd angen i chi roi sylw sy'n cynnwys dyddiad y newid os cadarnhewch fod yr ardal yn disodli'r nodwedd barhaol bresennol. Nid oes angen i chi gyflwyno cais Rheoli Fy Nhir (MML) i gefnogi hyn.




1. Os ydych chi'n clicio **Ie** yna bydd y cynefin yn disodli'r nodwedd barhaol.
2. Os ydych chi'n clicio **Na**, bydd yr ardal yn clipio i ffin y nodwedd barhaol.
3. Os ydych chi'n clicio **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a luniwyd yn cael ei dileu.

## Nodweddion dŵr – afonydd a nentydd

Ni allwch ddylunio neu olygu cynefin i orgyffwrdd ag afon neu nant. Gofynnir i chi a ydych am glipio'r siâp a luniwyd i'r nodwedd ddŵr.





1. Os ydych chi'n dweud **Ie**, bydd y cynefin yn clipio i'r nodwedd ddŵr.
2. Os ydych chi'n dweud **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a luniwyd yn cael ei dileu.

## Cyfyngiadau

Mae'r haenau cyfyngiadau fel a ganlyn a gellir eu troi ymlaen gan ddefnyddio opsiynau Gweld:


- Opsiynau Rheoli Glastir
- Gwrthodwyd sgrinio Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA)
- Safleoedd Dynodedig

Os yw unrhyw ardal o gynefin wedi'i orchuddio gan haen cyfyngiadau, ni fyddwch yn gallu lleihau neu dynnu'r ardal cynefin, ond byddwch yn gallu gwneud newidiadau eraill.




**Coetiroedd presennol yng Nghynllun Cynefin Cymru (HWS) 2024**

Nid yw'n bosibl golygu unrhyw gynefinoedd coetiroedd presennol (yn HWS 24) gan eu bod yn ardaloedd a gynhwyswyd yng nghytundebau HWS.




Os ychwanegwch gynefin newydd sy'n gorgyffwrdd ag ardal o goetir presennol (yn HWS 24) gofynnir i chi a ydych am ei ddisodli.





1. Os ydych chi'n clicio **Ydw** yna bydd y cynefin newydd yn disodli'r cynefin presennol.

2. Os ydych chi'n clicio **Na**, bydd yr ardal yn clipio i ffin y cynefin.


3. Os ydych chi'n clicio **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a luniwyd yn cael ei ddileu.

Os byddwch yn dileu ardal o ganopi coed sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1 hectar sy'n gorgyffwrdd ag ardal o goetiroedd presennol (yn HWS 24), bydd yr arwynebedd cynefin yn cael ei lleihau neu ei ddileu.



## Pyllau bywyd gwyllt parhaol


Nid yw'n bosibl newid dosbarthiad pwll bywyd gwyllt parhaol cyhoeddedig gan eu bod yn seiliedig ar y data nodweddion dŵr sydd gennym. Os ceisiwch leihau'r ardal, bydd neges gwall yn ymddangos i gadarnhau bod yn rhaid i'r pwll orchuddio'r nodwedd barhaol y mae'n cael ei dynnu drosto.




Ni allwch ymestyn neu ddylunio pwll bywyd gwyllt parhaol sy’n fwy na 1 ha mewn maint.



Ni allwch orgyffwrdd cynefin pwll bywyd gwyllt parhaol â chynefin arall neu ganopi coed grŵp dros 0.1 hectar. Gofynnir i chi a ydych am glipio'r siâp a dynnwyd i'r nodwedd ddŵr.





1. Os ydych chi'n dweud **Ie**, bydd y cynefin neu'r canopi coed yn clipio i'r pwll.

2. Os ydych chi'n dweud **Dileu lluniad**, bydd yr ardal a luniwyd yn cael ei ddileu.

## Cyfanswm Maint y Darnau Cynefin

Dengys y dudalen hon gyfanswm maint y cynefin i ddechrau ac ar hyn o bryd yn ôl categori ar draws pob un o'ch parseli tir. Mae parseli sy'n dal i fod â statws ‘gwaith dilynol’ wedi'u cynnwys fel parseli heb eu hadolygu ar gyfer y crynodeb hwn.


Nid yw parseli wedi'u dileu yn cyfrif tuag at eich cyfansymiau ac nid ydynt wedi'u cynnwys ar gyfer y crynodeb hwn.



## Cyfanswm Maint y Darnau Canopi

Dengys y dudalen hon gyfanswm maint y canopi coed i ddechrau ac ar hyn o bryd yn ôl math ar draws pob un o'ch parseli tir, yn ogystal â'r cyfanswm ar gyfer yr holl arwynebedd canopi coed sy'n fwy na neu'n cyfateb i 0.1 ha. Mae parseli sy'n dal i fod â statws 'gwaith dilynol' wedi'u cynnwys fel parseli heb eu hadolygu ar gyfer y crynodeb hwn. Dangosir unrhyw arwynebeddau sy'n fwy na 0 ha ond yn llai na 0.01 ha fel 'Llai na 0.01 ha'.

Nid yw parseli wedi'u dileu yn cyfrif tuag at eich cyfansymiau ac nid ydynt wedi'u cynnwys ar gyfer y crynodeb hwn.



## Cynllun Ffermo Cynaliadwy 2026

Mae'r cwestiwn hwn yn orfodol ond nid yw'r ffaith eich bod wedi'i ateb yn eich rhwymo i wneud cais ar gyfer y cynllun. Bydd canllawiau llawn am y cynllun ar gael cyn i'r cynllun agor yn 2026.


Gallwch ddefnyddio'r botymau radio i ateb y cwestiwn.



## Tudalen Gyflwyno – Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb


Mae'r dudalen Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb yn rhoi crynodeb o fanylion eich ffurflen Cadarnhau Data ac yn eich hysbysu am unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyflwyniad.  Darllenwch yr adran hon er mwyn cadarnhau bod y manylion yn gywir.

Tynnir sylw at unrhyw gamgymeriadau gan ddefnyddio neges rybuddio goch a chaiff y dudalen â'r camgymeriad ei nodi â chroes goch yn y bar ar ochr chwith y sgrin.




## Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau

Rhaid i chi ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau a thicio'r blwch i gadarnhau eich bod wedi'u darllen a'ch bod yn eu derbyn.



## Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno eich ffurflen Cadarnhau Data, cliciwch ar y botwm Cyflwyno. Ar ôl i chi ei chyflwyno, cewch grynodeb o'r hyn rydych wedi'i gyflwyno y gallwch ei brintio ar gyfer eich cofnodion.



## Cysylltiadau

### RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl ichi gofrestru ar gyfer gwasanaethau Mewngofnodi ar Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein | LLYW.CYMRU. Os nad ydych wedi cofrestru eto gydag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ynghylch sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

### Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r **Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**

Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein.

### Mynediad i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb eich gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i swyddogion Llywodraeth Cymru allu gwneud trefniadau addas ar eich cyfer.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad.